# Cemeg feintiol

Mae'r adnodd termau allweddol yn rhestr o eirfa wedi'i dewis yn ofalus, gyda diffiniadau. Bydd y dysgwyr yn dod ar draws yr eirfa wrth astudio'r pwnc hwn yn y cyfnod allweddol hwn. Mae'r holl dermau allweddol hyn a'u diffiniadau hefyd ar gael yn yr adnodd geirfa hygyrch sy'n cynnwys delweddau, canllawiau ynganu a gwybodaeth arall. Mae grŵp llai o'r un termau allweddol hyn a'u diffiniadau ar gael yn yr adnodd model Frayer a'r daflen waith datrys diffiniadau. Defnyddiwch yr adnoddau cysylltiedig hyn i ddatblygu rhagor ar ddealltwriaeth y dysgwyr o'r termau allweddol.

Mae'r rhestr o dermau allweddol a diffiniadau yn addas i ddysgwyr 14–16 oed ond nid yw wedi'i llunio'n benodol ar gyfer unrhyw fwrdd arholi na chymhwyster. Golygwch y diffiniadau yn y daflen i fyfyrwyr y gellir ei golygu er mwyn cyd-fynd â gofynion eich bwrdd arholi. Gallwch hefyd olygu'r holl adnoddau cysylltiedig.

Mae'r termau allweddol yn cael eu grwpio yn ôl is-bwnc ac yn nhrefn yr wyddor. Felly gall fod yn haws deall diffiniad un term drwy edrych ar derm arall sy'n ymddangos yn is yn y rhestr.

Rydym wedi gwneud ein gorau glas i osgoi defnyddio terminoleg yn y diffiniadau sydd hefyd yn gofyn am ddiffiniad, ond roedd yn rhaid gwneud hynny weithiau. Sylwch fod rhai o'r termau sy'n cael eu defnyddio yn y diffiniadau ar gael yn y rhestr termau allweddol ar gyfer pynciau eraill, edrychwch ar rsc.li/4txqomY.

## Syniadau ar gyfer addasu

- Beth am gynnwys y geiriau mewn tasg sillafu?
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i rai o'r geiriau'n annibynnol.
- Dilëwch y diffiniadau a gofynnwch i'r dysgwyr eu llenwi wrth gyflwyno pob term.
- Integreiddiwch sgiliau siarad a gwrando yn y gweithgaredd hwn:
    - ✓ Modelwch yr ynganu. Dywedwch y termau a'r diffiniadau allweddol yn uchel a gofynnwch i'r dysgwyr eu hailadrodd fel dosbarth.
    - ✓ Ynganwch derm allweddol yn gywir ac yn anghywir mewn brawddeg a gofynnwch i'r dysgwyr ddyfalu pa un yw pa un.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol